5ED O RAGFYR

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Sioeau Nadolig

Mae wedi bod yn hyfryd wythnos yma i groesawu rhieni a theuluoedd estynedig i'r ysgol i wylio sioe Nadolig y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
Cawsom wledd o ganu, actio a dawnsio ac roedd naws Nadoligaidd hyfryd yn neuadd yr ysgol.
Diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus ac am ddarparu'r gwisgoedd gwych ar gyfer y sioe!
Diolch hefyd i'r staff arbennig sydd gennym ni yma yn Ysgol Treganna am eu holl waith caled yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y sioeau.
Edrychwn ymlaen yn fawr at sioeau Blwyddyn 3,4,5 a 6 yr wythnos nesaf a sioeau Math (Meithrin) yr wythnos ganlynol.

### Twrnamaint Pêl-Rwyd

Ddoe aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i gystadlu yn nhwrnamaint pêl-rwyd yr Urdd.
Roedd pob tîm wedi perfformio'n wych ac yn glod i'r ysgol.
Diolch i'r staff sydd wedi bod wrthi yn hyfforddi'r disgyblion a hefyd i'r staff aeth i'r twrnamaint i ofalu ar ôl y plant.

## Calendr

### Sioeau Nadolig

Blwyddyn 3,4,5 a 6 (BRANWEN)
9/12/2025
5.00yh

Blwyddyn 3,4,5 a 6 (MANAWYDAN)
10/12/2025
5.00yh

Blwyddyn 3,4,5 a 6 (PWYLL)
11/12/2025
5.00yh

MATH (Bore)
18/12/2025
10.00yb

MATH (Prynhawn)
18/12/2025
1.45yp

**Bws Beic**
**Ysgol Treganna**

Bydd y Bws Beic nesaf ar ddydd Gwener y 12fed o Ragfyr. Diolch yn fawr i'r rhieni, gwirfoddolwyr a staff sydd wedi bod wrthi tymor yma yn trefnu ac yn cynorthwyo gyda'r Bws Beic.

Croeso mawr i bawb ymuno gyda ni ar gyfer Bws Beic Nadoligaidd mis Rhagfyr!



# Y Nyth

**Gweithdy ‘Hwyl gyda Ffoneg’ / Fforwm Rhieni (ASD/ADHD)**

Diolch o galon i’r rhieni a fynychodd ein gweithdy wythnos ddiwethaf, ac i'r rheiny ddaru ymuno â ni ar gyfer ein sesiwn "Paned a Chlonc" prynhawn yma.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth bob amser - diolch.

# Y GRHA
# Raffl y Nadolig

Cofiwch am raffl fawr y Nadolig sy’n cael ei drefnu gan y GRhA.

Mae tocynnau yn £5 yr un a bydd y raffl yn cael ei dynnu ar ddydd Gwener y12fed o Ragfyr.

Mae tocynnau dal ar gael i brynu o’r GRhA.

# Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**

Wyt ti eisiau ……?

Ydw / Dim diolch

**Her**

Hoffwn i... oherwydd

**Testun trafod yr wythnos**

Cymwynas dda wnes i heddiw oedd….

**Cân yr wythnos**

Mei Gwynedd & Plant Ysgol Treganna - Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

**Idiom yr wythnos**

Dyfal donc a dyr y garreg.